LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# YR HYN A GLYWSOM YN Y GELLI A THALGARTH






## BETH DDYSGON NI AM WASANAETHAU IECHYD A GOFAL YN EICH CYMUNED

# Am beth mae'r adroddiad hwn?



Ym mis Tachwedd 2024, buom yn siarad â phobl yn y Gelli Gandryll a Thalgarth.  Roedden ni eisiau gwybod sut maen nhw'n teimlo am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol.

Roedd hyn yn rhan o gynllun mwy i siarad â phobl mewn 13 ardal ym Mhowys.



# Sut wnaethon ni siarad â phobl



Ymwelon ni â meddygfeydd, grwpiau cymunedol, ysbytai a lleoliadau ieuenctid.



Anfonwyd taflenni i 4,500 o gartrefi.



Defnyddiwyd arolwg ar-lein ac ar bapur.

# Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym

## Pethau da



Canmolwyd staff rheng flaen fel nyrsys a gweithwyr fferyllol.



Roedd fferyllfeydd yn ddefnyddiol ac yn gyflym gyda phresgripsiynau.



Hoffwyd y bwyd a staff Ward Llewellyn yn Ysbyty Bronllys.

## Ddim cystal



Aros hir am apwyntiadau.

Anodd gweld yr un Doctor.



Nid oedd pobl ag Awtistiaeth neu ADHD yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.



Roedd rhai staff yn anghwrtais.

# Iechyd Meddwl

Dim digon o help yn ystod argyfwng.



Dywedodd pobl ifanc nad oedd digon o wasanaethau na lleoedd i fynd iddynt.



Teimlai rhai nad oedd neb yn gwrando arnynt oherwydd diagnosis yn y gorffennol.



# Teithio a Chludiant




Dywedodd pobl ei bod yn anodd cyrraedd ysbytai, yn enwedig heb gar.

Amseroedd teithio hir, yn enwedig ar gyfer yr henoed a phobl incwm isel.



# Problemau eraill

Ni all pobl ddod o hyd i ddeintyddion y GIG.




Dywedodd gofalwyr fod cymorth yn ddryslyd ac yn anodd ei gael.



Nid yw gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru a Lloegr bob amser yn cydweithio'n dda.



Mae pobl eisiau gwell mynediad ar-lein i wasanaethau.



# Beth sydd angen newid

Mae angen i Wasanaethau Meddygon Teulu fod yn haws eu defnyddio.




Mwy o help i bobl ag Awtistiaeth, ADHD a phroblemau Iechyd Meddwl.

Gwell trafnidiaeth i ardaloedd gwledig.

Gwybodaeth gliriach am ddeintyddion symudol.

Mwy o gymorth i ofalwyr di-dâl.

Gwefannau haws eu defnyddio ac archebu ar-lein.

# Beth mae Gwasanaethau yn ei wneud yn ei gylch

Dywedodd **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys:**




Mae Meddyg Teulu Haygarth yn gwneud newidiadau i sut mae apwyntiadau a brysbennu yn gweithio.

Maen nhw'n trwsio problemau gyda Fferyllfa'r Gelli.

Maen nhw'n dal i gynnig gofal diwedd oes yn Ysbyty Bronllys.

Byddan nhw'n dweud wrth fwy o bobl am y fan ddeintyddol symudol.

Dywedodd **Cyngor Powys:**



Maent yn edrych ar drafnidiaeth gwell i bobl mewn ardaloedd gwledig.



Maen nhw eisiau gwneud asesiadau yn haws i ofalwyr.

# Beth sy'n digwydd nesaf




Bydd **Llais** yn gwirio eto yn 2025 i weld a yw pethau wedi gwella.

Byddwn yn dweud wrth ddarparwyr gwasanaethau beth ddywedodd pobl.




Byddwn yn helpu i wella gwybodaeth am wasanaethau.

Rydym am barhau i weithio gyda phobl leol a gofalwyr.

# Neges olaf

Diolch i bawb a rannodd eu hanesion.




Mae eich llais yn helpu i wella iechyd a gofal yn eich cymuned.

# Cysylltwch â ni


**Ffon:** 01686 627632

**E-bost:** ymholiadaupowys@llaiscymru.org